# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Medi 2il 2025 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Rita Jones, Iolo Evans, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Gary Thomas a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Gorffennaf 1af 2025) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned **– adroddodd y clerc fod cynnig am arian ychwanegol wedi cyrraedd ar ol y cyfarfod diwethaf ac wedi ymgynghori cytunwyd i ddefnyddio'r arian i ehangu'r llwybr troed newydd. Roedd cais y Cyngor wedi bod yn llwyddianus a derbyniwyd £9,000. Roedd y contractwyr am gychwyn y gwaith yn fuan.**
c) Ciosg ffôn pentref Llandderfel **– eglurodd y clerc y byddai'r Cyngor yn berchen y ciosg yn swyddogol ar 10/09/25 ac roedd cyfarwyddiadau wedi cael ei roi i'w ychwanegu i'r polisi yswiriant. Gofynnwyd i'r clerc ymgynghori gyda'r pwyllgor lleol ynglŷn â'i drawsnewid.**

<u>iv) Gohebiaeth</u>
<u>a) Un Llais Cymru.</u>
i) Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd

<u>b) Amrywiol.</u>
i) Gwahoddiad i Wŷl Glan-Llyn, 27/09/25. **Cytunodd Bethan Thomas fynychu'r digwyddiad.**
ii) Bygythiad i gyllido elusennau sy'n darparu gofal cymdeithasol. **Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu unrhyw fygythiad i gyllido gofal cymdeithasol hanfodol fel hyn.**
iii) Gwahoddiad i agoriad swyddogol cae astro newydd Y Bala, 10/09/25. **Cytunodd Rita Jones fynychu'r digwyddiad.**

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
**Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau.**

<u>vi) Materion Ariannol</u>
a) Derbyniadau – ail randal y Praesept - £7,500.
b) **Cytunwyd i dalu:-**
Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd), Cyngor Gwyned (archwiliad mewnol), Gwasanaeth Coed Tom Edwards.
c) Ceisiadau Ariannol – Gofal Ganser Tenovus.

<u>vii) Materion lleol.</u>
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth Hydref 7fed yn Neuadd Mynach.**